**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA/JMHSC/10881/24

Cadeiryddion y GIG

20 Rhagfyr 2024

Annwyl gydweithwyr

***Gweithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau* – Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-2028**

Wrth inni weithio gyda'n gilydd i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, rwy'n falch iawn o gyflwyno fy Fframwaith Cynllunio cyntaf ar gyfer GIG Cymru. Mae'n gyfle imi nodi fy uchelgais lefel uchel ar gyfer ein system iechyd a gofal – uchelgais rwy'n gwybod y byddwch chi'n ei rhannu.

Mae cyfnod o gryn ansicrwydd wedi bod ers dechrau'r pandemig yn 2020, ac yn amlwg, nid ydym eto wedi cyrraedd y nod o ran adfer gwasanaethau iechyd a gofal i gleifion yng Nghymru. Rwyf am weld gwelliannau o ran cyflawni yn cael eu rhoi ar waith yn gynt, a hynny gan ddefnyddio dulliau arloesol yn ogystal â dulliau cyfarwydd. Rhaid i ansawdd, diogelwch a gwella canlyniadau fod yn ganolog i'r holl ddewisiadau a phenderfyniadau a wnawn ym mhob rhan o'r GIG.

## Cyflawni a Pherfformio

Mae'r Fframwaith hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol y mae'n rhaid eu cyflawni gan bob bwrdd iechyd, a (lle bo'n berthnasol) sefydliadau eraill y GIG dros y tair blynedd nesaf. Maent mewn meysydd sydd wedi'u codi'n gyson drwy sgyrsiau ac ymwneud y Prif Weinidog â'r cyhoedd a staff ers yr haf. Maent yn bwysig i ddinasyddion Cymru. Yn fras, mae'r meysydd ffocws fel a ganlyn:

- Mynediad Amserol at Ofal
- Iechyd y Boblogaeth ac Atal
- Meithrin Capasiti Cymunedol
- Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl
- Iechyd Menywod

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Yn fwy penodol, nodir y disgwyliadau cyflawni sy'n ofynnol ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth strategol hyn yn Atodiad 1.**

Yn eich cynlluniau, rwyf am weld ffocws ar y cyd ar y meysydd hyn er mwyn creu buddion cynnar a chynaliadwy i boblogaeth Cymru. Dylai cyflawni'r rhain fod wrth wraidd sut rydych chi'n cynllunio adnoddau a chapasiti er mwyn sicrhau mwy o gyflymder a diben. Bydd gofyn ichi flaenoriaethu partneriaethau â gofal cymdeithasol er mwyn gwneud cynnydd yn rhai o'r meysydd hyn. Bydd cyflawni'r disgwyliadau o dan sylw yn helpu i sicrhau'r gwelliannau mewn perfformiad a chanlyniadau y byddem i gyd yn dymuno eu gweld ym mlwyddyn gyntaf eich cynlluniau (2025-26). Rwy'n disgwyl gweld gwelliant parhaus a chyson tuag at gyflawni ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth strategol dros y tair blynedd.

**Er mwyn eich helpu i gyflawni yn erbyn y disgwyliadau hyn, rydym yn nodi nifer o gamau galluogi (sydd ynghlwm yn Atodiad 2). Mae'r rhain yn orfodol ar sail "mabwysiadu neu gyfiawnhau"**. Mae gan bob un ohonynt sylfaen dystiolaeth i ddangos effeithlonrwydd a/neu ganlyniadau gwell, a hynny heb arwain at gostau ychwanegol. Maent yn ganlyniad gwaith sydd ar y gweill drwy'r Rhaglenni Strategol Cenedlaethol, y Rhwydweithiau Clinigol Strategol a'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd. Mae'r camau eisoes yn ofynnol, ond ceir anghysondeb ledled Cymru o ran eu rhoi ar waith. Mae angen inni weld y camau hyn yn cael eu cymhwyso a'u gweithredu'n fwy cyson. Bydd hyn yn dda i gleifion ac yn dda i werth a chynaliadwyedd. Rhaid i'r cynnydd yn erbyn y camau galluogi gorfodol, ynghyd ag asesiad o'r cynhyrchiant, yr effeithlonrwydd a/neu'r enillion ariannol cysylltiedig gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau.

Er bod y Fframwaith hwn yn glir ynghylch y blaenoriaethau cenedlaethol y mae angen i'ch cynlluniau ganolbwyntio arnynt fwyaf, mae angen i sefydliadau'r GIG, wrth gwrs, gomisiynu a/neu ddarparu ystod eang o wasanaethau i wella iechyd eu poblogaethau ac i gyflawni amcanion strategol Cymru Iachach, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Hyderaf y bydd eich Byrddau yn ystyried y cydbwysedd hwn wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau mewn meysydd eraill.

Byrddau iechyd lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion eu poblogaethau lleol, felly wrth nodi fy nisgwyliadau ar gyfer cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol cenedlaethol tair blynedd, y disgwyliadau cyflawni ym mlwyddyn 1 a'r camau galluogi, rwy'n cydnabod bod hyn yn golygu mwy o hyblygrwydd o ran cyflawni yn erbyn meysydd eraill.

Edrychaf ymlaen at drafodaeth barhaus â chi am hyn – byddai eich awgrymiadau am sut y gallwn nodi meysydd i'w hystyried ar gyfer dad-flaenoriaethu yn cael eu croesawu. Yn wir, mae nifer o'r camau galluogi yn ymwneud â gweithgarwch y mae *rhaid* ei ddad-flaenoriaethu a'i stopio pan fo tystiolaeth o wastraff, niwed neu amrywiad sy'n arwain at fawr ddim neu ddim gwerth nac effeithiolrwydd clinigol o gwbl.

Rwyf hefyd am ystyried gyda chi sut y gallwn symleiddio'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd a sefydliadau'r GIG, fel y gallwn sicrhau bod ein system adrodd am ddata, ein system atebolrwydd a'n systemau eraill bob amser yn gymesur, yn lleihau dyblygu gwaith, ac nid yn rhy gymhleth. Yn enghraifft bendant o hyn yn

ystod y misoedd nesaf, rwy'n disgwyl mai hon fydd y flwyddyn olaf y caiff ein fframwaith cynllunio ei gyhoeddi ar wahân ac rwyf wedi gosod amcan i Lywodraeth Cymru integreiddio'r fframweithiau ansawdd, cynllunio a pherfformiad i symleiddio ein gofynion yn y dyfodol.

I ddechrau'r broses hon o alinio, mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru eleni yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â fframwaith dyraniad y GIG ar gyfer 2025/26 i sicrhau eglurder llwyr ynghylch y paramedrau y mae rhaid ichi ddatblygu eich cynlluniau oddi mewn iddynt. Mae cyflawni gwelliannau ariannol a sefyllfaoedd ariannol cynaliadwy, gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, a chynyddu ein cynhyrchiant a'n heffeithlonrwydd, yn parhau i fod yn hanfodol wrth gyflawni'r agenda hon.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni a pherfformio ar draws y GIG, bydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant yn rhoi ei ganfyddiadau a'i argymhellion imi erbyn diwedd mis Mawrth. Hoffwn gydweithio â chi ar ymateb i'r argymhellion hynny i sicrhau y gallwn elwa ar fanteision y gwelliannau yr ydym am eu gweld ar draws y system.

Rwy'n awyddus i sicrhau bod pob rhan o'r GIG yn ceisio dysgu'n barhaus o enghreifftiau o arferion gorau, yn y GIG yng Nghymru a thu hwnt, gan weithio'n rhagweithiol gyda'i gilydd i nodi arferion llwyddiannus o arloesi – gan gymhwyso'r egwyddor o "addasu, mabwysiadu neu gyfiawnhau". Mae hyn yn cynnwys gwneud cynnydd cyflym ar arloesi a thrawsnewid digidol, er mwyn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Rwyf hefyd eisiau deall sut y mae sefydliadau'n cydweithio i greu ffyrdd rhanbarthol newydd o weithio i ddarparu ansawdd, mynediad a lefelau gofal nad oes modd i un sefydliad yn unig eu darparu. Mae'n hanfodol bod byrddau iechyd yn deall y cyfleoedd y gall hyn eu cynnig, er budd canlyniadau gwell i gleifion a gwasanaethau cynaliadwy.

Rhaid datblygu'r holl waith cynllunio a chyflawni sefydliadol ar feysydd gwella ansawdd, diogelwch, canlyniadau a gwerth, gyda chymorth yn ei dro gan gynlluniau galluogi cadarn ar gyfer cyfalaf, digidol, cydweithio a gweithlu'r GIG.

**Y Gweithlu ac Arweinyddiaeth**

Rwy'n ddiolchgar am ymroddiad ac ymrwymiad ein gweithlu ar draws y GIG yng Nghymru, sydd wrth wraidd y profiad, ac ansawdd y gwasanaethau, a ddarparwn i'n cleifion. Mae'r buddsoddiad yn y gwaith o ddatblygu ein gweithlu wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a rhaid inni barhau i ganolbwyntio, mewn partneriaeth gymdeithasol, ar ffyrdd o ennyn diddordeb a grymuso ein pobl i gyflawni'n ddiogel, yn effeithiol ac yn hyblyg ar draws y GIG yng Nghymru.

Bydd arwain gyda thosturi ar bob lefel ar draws y GIG yng Nghymru yn golygu y byddwn yn gwrando'n briodol ar ein gweithlu, yn eu deall ac yn cydymdeimlo â hwy, fel y gallwn helpu i ddileu'r heriau a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu sy'n amharu ar ddarparu gwasanaethau gwell i bobl Cymru. Mae creu diwylliant diogel a chynhwysol ac arweinyddiaeth gydweithredol ar draws y GIG yn allweddol i rymuso pobl i gyflawni eu gorau. Bydd hyn yn gwerthfawrogi cyfraniadau unigolion ac yn datblygu timau mwy effeithiol sy'n hyderus i wneud penderfyniadau effeithiol, er enghraifft o ran gofal, triniaeth a rhyddhau. Mae arweinyddiaeth effeithiol, beth bynnag fo'r hierarchaeth, hefyd yn allweddol ar gyfer meithrin arloesi ar lefel tîm, sefydliadol, rhanbarthol a system, gan fanteisio ar gyfleoedd i addasu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.


Rwy'n disgwyl clywed sut y mae sefydliadau'n datblygu eu harweinyddiaeth a'u diwylliant i sicrhau diogelwch, iechyd a llesiant eu gweithlu i'w galluogi i gyflawni, sicrhau bod eu timau mor effeithiol â phosibl a gwella eu gwasanaethau.

**Canlyniadau sy'n bwysig i bobl**

Yn ystod y misoedd nesaf, rwy'n bwriadu parhau i siarad â'r cyhoedd a gweithlu'r GIG ledled Cymru i glywed am yr heriau a'r cyfleoedd ar draws y system iechyd a gofal. Mae rhai o'r materion allweddol yr ydym yn gweithio arnynt gyda'n gilydd, fel amseroedd aros hir am driniaeth, a rhyddhau cleifion o'r ysbyty, eisoes yn uchel wrth gwrs ar agenda'r cyhoedd, cleifion a staff iechyd a gofal. Mae'n hanfodol ein bod yn glir am yr hyn y mae rhaid ei wneud yn y tymor byr a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn y tymor hwy i fyw bywydau iachach drwy ddulliau ataliol ac osgoi'r angen am ofal mewn ysbyty lle y gallwn. Nid oes unrhyw atebion syml, felly rwyf am ystyried gyda'r cyhoedd pa ddiwygiadau a datblygiadau gwasanaeth y gellir eu rhoi ar waith i helpu'r GIG i addasu ar gyfer y dyfodol.

Rhaid inni weithredu i gydbwyso canlyniadau gwell yn y tymor hir â mynd i'r afael â'r materion pwysicaf sy'n wynebu ein cymunedau, ein cleifion, ein gweithlu a'n system iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Rwy'n gwybod bod eich holl staff sy'n gweithio ar y rheng flaen ac sy'n darparu gofal yn ein cymunedau, o ddydd i ddydd, yn ganolog i bopeth y mae angen ei wneud. Gyda'ch cymorth chi, rwy'n hyderus y gallwn, gyda'n gilydd, wneud y gwelliannau yr ydym i gyd am eu gweld.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care